Rhif: **WG-15109**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori



# Awdurdodaeth Gyfreithiol ar Wahân ar gyfer Cymru

Dyddiad cyhoeddi: **27 Mawrth 2012**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **19 Mehefin 2012**

## Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad hwn yw holi eich barn am:

- ystyr y term "awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân";
- a oes rhyw nodweddion sy'n hanfodol er mwyn cael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ac, os felly, beth ydynt;
- beth yw canlyniadau posibl cael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru; a
- pa fanteision ac anfanteision a all godi o gael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru.

## Sut i ymateb

Gofynnir i chi ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy ateb y cwestiynau a nodir mewn print trwm yng nghorff y ddogfen ac a restrir ar y diwedd. Cewch ateb cynifer neu cyn lleied ag y dymunwch. Hefyd, mae croeso ichi gyflwyno barn neu olwg gyffredinol ar fater awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru.

Wrth ateb y cwestiynau yn y papur ymgynghori hwn, gofynnir i chi roi rhesymau dros eich atebion, gan gyfeirio'n benodol at yr hyn a dybiwch fyddai canlyniadau, manteision ac anfanteision awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Tîm Polisi Cyfansoddiadol
Llywodraeth Cymru
4ydd Llawr
Parc Cathays 2
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: constitutionalpolicy@wales.gsi.gov.uk

## Diogelu data

**Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.**

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth y Cynulliad sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth y Cynulliad yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

© Hawlfraint y Goron 2012 WG15109

## Rhagair – Prif Weinidog Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol

Mae natur gyfansoddiadol y Deyrnas Unedig wedi newid yn sylweddol er pan ddatganolwyd pwerau i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ym 1999.

Yng Nghymru, mae'r prif newidiadau wedi digwydd mewn camau clir. Yn gyntaf, datganoli pwerau gweithredol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999. Yn ail, gwahanu Llywodraeth Cymru yn gyfreithiol oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2007 a chael pwerau i basio Mesurau. Yn drydydd, rhoi pwerau i'r Cynulliad basio deddfwriaeth sylfaenol ym mhob maes datganoledig yn dilyn y bleidlais Ie yn refferendwm 2011.

Gyda'r newidiadau hyn cafodd ein sefydliadau democrataidd newydd – Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad – y pwerau angenrheidiol i ddatblygu, gweithredu a chraffu ar bolisi yn y meysydd datganoledig. Ond, yn anochel, gall hyn gael effaith fwy pellgyrhaeddol – ar y gymdeithas sifil yng Nghymru, ar y sawl sy'n lobïo am newidiadau cymdeithasol neu economaidd, ar aelodau'r cyhoedd ac, yn bennaf oll yn y cyd-destun hwn, ar gyfreithiau a system gyfreithiol Cymru.

Yn ddiweddar mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi penodi Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru o dan gadeiryddiaeth Paul Silk, cyn Glerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Fel rhan o'i waith bydd y Comisiwn yn ystyried pwerau'r sefydliadau datganoledig, ac yn enwedig faterion sy'n ymwneud â ffiniau'r setliad datganoli yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Comisiwn maes o law. Bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn yn cyfrannu at y dystiolaeth honno.

Ar hyn o bryd mae unrhyw ddeddfwriaeth a gaiff ei phasio ar gyfer Cymru, boed hynny gan y Cynulliad, Gweinidogion Cymru, y Senedd yn San Steffan neu Weinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig, yn dod yn rhan o gyfraith Cymru a Lloegr. Mae hyn oherwydd bod Cymru a Lloegr yn rhannu'r un awdurdodaeth gyfreithiol, a bod un system o lysoedd, barnwyr a phroffesiynau cyfreithiol wedi datblygu'n nodwedd neilltuol o'r awdurdodaeth honno.

Yn anorfod, mae datganoli pwerau i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad yn golygu y bydd rhagor o gyfreithiau neilltuol Gymreig yn gymwys yng Nghymru yn y dyfodol. Mae hyd yn oed mwy o gyfle i hynny ddigwydd ar ôl y bleidlais Ie yn y refferendwm y llynedd. Oherwydd hyn, daeth yn bryd ystyried a ddylid cael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru ai peidio.

Mae hwn yn ymgynghoriad dilys. Ni ellir honni ar unrhyw gyfrif mai dim ond un canlyniad posibl sydd i'r trafodaethau. Rydym yn awyddus i'r holl ddadleuon o blaid ac yn erbyn gael eu gwyntyllu a'u hystyried yn drwyadl, er mwyn cael dealltwriaeth glir o'r holl fanteision a'r anfanteision posibl. Mae'n glir bod modd cael awdurdodaethau ar wahân mewn Teyrnas Unedig – mae gan yr Alban a Gogledd Iwerddon eisoes eu hawdurdodaethau eu hunain, sydd ar wahân i awdurdodaeth Cymru a Lloegr. Ond, er ein bod wedi casglu llawer o wybodaeth am nodweddion awdurdodaethau cyfreithiol, rydym yn agored ein meddwl ai symud tuag at awdurdodaeth ar wahân ar gyfer Cymru fyddai'r ffordd orau ymlaen.

A dyna pam yr ydym yn lansio’r ymgynghoriad hwn. Gwyddom fod awdurdodaeth ar wahân ar gyfer Cymru eisoes yn bwnc trafod mewn cylchoedd cyfreithiol a bod Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad wrthi’n cynnal ymchwiliad i’r mater. Rydym yn croesawu’r gwaith sydd ar y gweill ac yn dymuno adeiladu ar hynny trwy’r ymgynghoriad hwn.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich barn chi ar y materion sydd wedi’u nodi yn y papur ymgynghori. Os bydd angen, fe gynhaliwn ymgynghoriad arall yn nes ymlaen i roi ystyriaeth fanylach i faterion penodol sy’n codi o’r ymatebion.



**Y GWIR ANRH. CARWYN JONES AC**
Prif Weinidog Cymru



**THEODORE HUCKLE CF**
Cwnsler Cyffredinol

## Pwrpas

Yn y refferendwm a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2011, pleidleisiodd pobl Cymru o blaid rhoi rhagor o bwerau deddfu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Canlyniad hynny oedd bod y darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n galluogi'r Cynulliad i basio deddfwriaeth sylfaenol (a elwir yn Ddeddfau'r Cynulliad) ym mhob un o'r meysydd datganoledig, wedi eu dwyn i effaith ym mis Mai y llynedd.

Ymhlith pethau eraill mae hyn yn golygu nad oes raid cael cydsyniad Senedd y Deyrnas Unedig, bellach, cyn y caiff y Cynulliad ddeddfu yn y meysydd datganoledig hynny.

Erbyn hyn mae'r pŵer gan y Cynulliad i basio Deddfau'r Cynulliad, sy'n dod yn gyfraith pan fydd Ei Mawrhydi yn rhoi Cydsyniad Brenhinol iddynt. O fewn ei bwerau caiff y Cynulliad, trwy gyfrwng Deddf, wneud unrhyw beth y gallai un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig ei wneud.

Mae Senedd y Deyrnas Unedig yn sofran ac mae'n cadw'r pŵer i ddeddfu ar unrhyw fater yng Nghymru. Fodd bynnag mae confensiwn na fydd Senedd y Deyrnas Unedig, fel rheol, yn deddfu ar fater datganoledig yng Nghymru heb gydsyniad y Cynulliad[1].

Oherwydd mai un awdurdodaeth gyfreithiol yw Cymru a Lloegr, mae'r cyfreithiau a wneir gan y Cynulliad neu gan Senedd y Deyrnas Unedig yn dal yn rhan o gyfraith Cymru a Lloegr, hyd yn oed os mai dim ond yng Nghymru y bwriedir iddynt fod yn gymwys. Mae'r sefyllfa, o ran hynny, yn wahanol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon gan eu bod hwy'n awdurdodaethau cyfreithiol ar wahân. Felly, er enghraifft, dim ond rhychwantu'r Alban y mae Deddfau Senedd yr Alban ac nid ydynt yn rhan o gyfraith unrhyw diriogaeth arall yn y Deyrnas Unedig.

Ar ôl y refferendwm datganoli ym 1997, ac yn arbennig yn sgil y refferendwm diweddaraf yng Nghymru ar bwerau deddfu'r Cynulliad, bu llawer o drafod a ddylai Cymru fod yn awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ai peidio.

Ar 7 Hydref 2011, gwnaeth Prif Weinidog Cymru ddatganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad yn cyflwyno bwriad Llywodraeth Cymru i lansio trafodaeth gyhoeddus ar y mater.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn pobl ynghylch:

- ystyr y term "awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân";
- a oes rhyw nodweddion sy'n hanfodol er mwyn cael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ac, os felly, beth ydynt;

[1] Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a Chytundebau Atodol rhwng Llywodraeth y DU, Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru a Phwyllgor Gweithredol Gogledd Iwerddon – Mehefin 2011.

- beth yw canlyniadau posibl cael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru; a
- beth fyddai manteision ac anfanteision posibl cael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru

Wrth ateb y cwestiynau yn y papur ymgynghori hwn, gofynnir ichi roi hesymau dros eich atebion, gan gyfeirio'n benodol at yr hyn a dybiwch chi fyddai canlyniadau, manteision ac anfanteision posibl awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru.

## Hanes

Cyn i Edward y Cyntaf, Brenin Lloegr, oresgyn Cymru ym 1282-3 roedd Cymru a Lloegr yn wledydd ar wahân a chanddynt gyfreithiau a thraddodiadau cyfreithiol gwahanol. Ym 1284 cyflwynodd Statud Rhuddlan system cyfraith gyffredin Lloegr i Gymru, er bod rhai gwahaniaethau'n dal yn y gyfraith sifil. Roedd y gwahaniaethau hyn yn cynnwys yr arfer Cymreig o setlo dyledion trwy gyflafareddu a'r rheolau etifeddiaeth, a oedd yn golygu bod tir yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng meibion y perchennog ar ôl iddo farw yn hytrach na'i fod yn mynd i'r mab hynaf.

Unwyd awdurdodaethau cyfreithiol Cymru a Lloegr gan Ddeddfau Cyfreithiau yng Nghymru 1536 a 1542 a greodd awdurdodaeth gyfreithiol gyffredin ledled Cymru gan olygu mai dim ond cyfraith Lloegr oedd yn cael ei gymhwyso. Diddymwyd y cyfreithiau Cymreig a oedd ar ôl. O dan y Deddfau newydd, roedd Cymru'n cael ei chynrychioli yn y Senedd a sefydlwyd system newydd o lysoedd yng Nghymru, o'r enw Llysoedd y Sesiwn Fawr.

Roedd y Sesiwn Fawr yn cael ei gweinyddu ar wahân i lysoedd Lloegr ac roedd yn delio ag achosion troseddol a sifil. Roedd yn eistedd ddwywaith y flwyddyn ym mhob un o siroedd Cymru (ac eithrio Sir Fynwy, a oedd yn rhan o system Lloegr). Fodd bynnag, cyfraith Lloegr oedd Llysoedd y Sesiwn Fawr yn ei chymhwyso ac roeddent yn cael eu cynnal yn Saesneg yn unig (er bod cyfieithwyr yn cael eu defnyddio yn aml). Ychydig o'r barnwyr oedd yn Gymry, ac roedd yr holl gyfreithwyr a barnwyr yn gweithio yn Lloegr hefyd.

## Heddiw

Cafodd Llysoedd y Sesiwn Fawr eu diddymu gan Ddeddf Tymhorau'r Gyfraith 1830, ac ymgorfforwyd Cymru yn system Lloegr fel cylchdaith Cymru a Chaer. Daeth Cymru'n ardal weinyddol ar wahân o Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (sef Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS) erbyn hyn) yn ei hawl ei hunan yn 2007, tra ymunodd Caer â rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr.

Erbyn heddiw, mae Cymru'n rhan o awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr, sef un o dair awdurdodaeth y Deyrnas Unedig. Cadwodd yr Alban awdurdodaeth ar wahân o dan delerau'r cytuniad oedd yn ei huno â Chymru a Lloegr ac yn creu gwladwriaeth newydd Prydain Fawr. Bu gan Ogledd Iwerddon awdurdodaeth ar wahân hefyd ers ei ffurfio'n rhan neilltuol o'r Deyrnas Unedig ym 1921.

Bu gogwydd tuag at ddatganoli yn system y llysoedd dros y blynyddoedd diwethaf ac, erbyn hyn, mae'r llysoedd bron i gyd, gan gynnwys y Llys Apêl, yn eistedd yng Nghymru o leiaf beth o'r amser.

Nid yw'r cyfrifoldeb am y llysoedd, na'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau gweinyddu cyfiawnder, wedi'u datganoli i Gymru. Fodd bynnag, mae rhai swyddogaethau ym maes gweinyddu cyfiawnder wedi'u datganoli. Mae gan y Cynulliad bŵer i greu tribiwnlysoedd newydd[2], ac mae Gweinidogion Cymru yn arfer swyddogaethau (e.e. i benodi barnwyr ac aelodau eraill) ar gyfer rhai tribiwnlysoedd sy'n eistedd yng Nghymru[3]. Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol hefyd am y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd yng Nghymru (CAFCASS Cymru).

[2] Er enghraifft, Tribiwnlys y Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011
[3] Gweler adroddiad Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd: "Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru"

## Beth yw ystyr y term “awdurdodaeth gyfreithiol”?

Mae “awdurdodaeth” yn derm sy’n gallu golygu gwahanol bethau mewn gwahanol gyd-destunau. Gellir defnyddio’r term i ddisgrifio awdurdod, yn enwedig awdurdod cyfreithiol, dros faes, pwnc neu berson. Yng nghyd-destun llysoedd, er enghraifft, gellir ei ddefnyddio i ddisgrifio’r mathau o achosion y mae gan lys yr hawl i benderfynu arnynt neu i esbonio a oes gan y llys hawl i wrando ar apelau (awdurdodaeth apelau).

Fodd bynnag yn y papur ymgynghori hwn defnyddir y term ‘awdurdodaeth gyfreithiol’ i gyfeirio at y cysyniad o awdurdodaeth gyfreithiol genedlaethol yn yr ystyr bod yr Alban a Gogledd Iwerddon, ar hyn o bryd, yn awdurdodaethau cyfreithiol sydd ar wahân i’w gilydd ac ar wahân i awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr.

Yn y papur hwn rydym yn gofyn beth y mae awdurdodaeth gyfreithiol (yn yr ystyr hwn) yn ei olygu i bobl, a oes rhaid cael rhyw nodweddion hanfodol cyn y gellir cydnabod awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân, a pha ganlyniadau a allai ddeillio o gael y math hwnnw o awdurdodaeth.

### Nodweddion allweddol Awdurdodaeth Gyfreithiol ar Wahân

Gall fod yn ddefnyddiol ystyried a oes rhai nodweddion allweddol yn dueddol o berthyn i awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân.

Wrth geisio amlinellu nodweddion hanfodol awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân, mae tair elfen allweddol yn cael eu nodi fel rheol[4]:

- a Tiriogaeth ddiffiniedig; gyda
- b Corff neilltuol o gyfreithiau; a
- c System gyfreithiol ar wahân – pethau fel deddfwrfa, llysoedd, barnwriaeth a phroffesiynau cyfreithiol.

### Y nodweddion allweddol hynny yng nghyd-destun Cymru

*a. Tiriogaeth ddiffiniedig*

Mae dau brif ddiffiniad o “Gymru” sy’n awgrymu bod yna eisoes diriogaeth ddiffiniedig, rhesymol ganfyddadwy ar gyfer Cymru.

Mae’r diffiniadau hyn i’w gweld yn Atodlen 1 i Ddeddf Ddehongli 1978 (a seilir, yn bennaf, ar arwynebedd tir Cymru) ac adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (sydd hefyd yn cynnwys y dyfroedd tiriogaethol o amgylch Cymru).

1. A ydych yn cytuno y byddai tiriogaeth ddaearyddol ddiffiniedig yn nodwedd hanfodol ar gyfer awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru?

---

[4] Er enghraifft, Syr Roderick Evans a’r Athro Iwan Davies yn eu tystiolaeth i Gomisiwn Richard; yr Athro Keith Patchett, ‘Welsh Law’, erthygl yn Agenda - cylchgrawn y Sefydliad Materion Cymreig, Gaeaf 2007-8; Adroddiad Confensiwn Cymru Gyfan, paragraff 3.9.15; Jones a Williams, ‘Wales as a Jurisdiction’, Public Law Journal, 2004.

1.1 Yn eich barn chi, at ddibenion awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru, pa diriogaeth ddylid ei dewis – "Cymru" yn ôl diffiniad Deddf Ddehongli 1978 neu yn ôl diffiniad Deddf Llywodraeth Cymru 2006?

*b. Corff neilltuol o gyfreithiau*

Gall "neilltuol" yn y cyd-destun hwn olygu dau beth.

Yn gyntaf, gall corff o gyfreithiau fod yn "neilltuol" am fod y cynnwys yn wahanol.

Yn ail, gall corff o gyfreithiau fod yn "neilltuol" oherwydd y diriogaeth y mae'n gymwys ynddi, hyd yn oed os nad yw'r cynnwys yn wahanol.

Mae eisoes gorff o ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru ac sy'n wahanol i'r hyn a geir yn Lloegr – er enghraifft Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 neu Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 – ac mae'n debygol iawn y bydd yr ymraniad hwn yn parhau i gynyddu.

Daw'r ddeddfwriaeth hon, sy'n ymrannu wrth y ddeddfwriaeth sy'n gymwys yn Lloegr, o sawl ffynhonnell – er enghraifft y Cynulliad, Senedd y Deyrnas Unedig, Gweinidogion Cymru a Gweinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Ar hyn o bryd, mae tair awdurdodaeth gyfreithiol yn y Deyrnas Unedig; yr Alban a Gogledd Iwerddon yw dwy ohonynt, a Chymru a Lloegr yw'r drydedd. Dyma'r dair tiriogaeth y gall deddfwriaeth eu rhychwantu. Gall deddfwriaeth a gaiff ei phasio gan Senedd y DU rychwantu un diriogaeth yn unig, pob un o'r tair, neu unrhyw gyfuniad ohonynt. Gall Deddf Seneddol rychwantu'r Deyrnas Unedig i gyd, neu ddim ond Cymru a Lloegr, neu Gymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon ond nid yr Alban, ac felly ymlaen.

Dim ond ar gyfer eu tiriogaeth benodol nhw y caiff Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon ddeddfu. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn wahanol. Ar hyn o bryd mae Cymru a Lloegr yn un diriogaeth at y diben hwn, ac felly mae deddfwriaeth y Cynulliad yn dod yn rhan o gyfraith awdurdodaeth Cymru a Lloegr, hyd yn oed os mai dim ond yng Nghymru y mae'n gymwys.

Gall y gwahaniaeth hwn rhwng rhychwant a chymhwysiad deddfwriaeth fod yn gysyniad anodd ei ddeall. Un ffordd o esbonio hyn yw bod y ddeddfwriaeth yn dod yn rhan o gorff cyfreithiau Cymru a Lloegr hyd yn oed os mai dim ond yng Nghymru y mae ganddo effaith.

**Gall yr enghraifft isod helpu.**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pasio Deddf Cynulliad yn ymwneud â thrwsio llwybrau troed ar yr Wyddfa. Yn amlwg, dim ond yng Nghymru y caiff y Ddeddf effaith ymarferol, a gellir cyfeirio at hyn fel ei chymhwysiad.

Fodd bynnag, fel holl ddeddfwriaeth ddatganoledig Cymru, bydd y Ddeddf yn dod yn rhan o gorff cyfreithiau Cymru a Lloegr a bydd yn rhychwantu'r awdurdodaeth gyfan. Felly, pe byddai cerddwr o Norwich yn cael ei anafu wrth ddefnyddio un o lwybrau'r Wyddfa a'i fod am hawlio yn erbyn yr awdurdod sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r llwybrau, gallai ddefnyddio cyfreithiwr lleol i hawlio yn llys sirol Norwich a dibynnu ar Ddeddf y Cynulliad gan ei bod yn rhan o ddeddfau Cymru a Lloegr ac felly y bydd llysoedd Cymru a Lloegr yn ei chydnabod. Ni fyddai gan Ddeddf y Cynulliad gymhwysiad ymarferol yn Norwich ond byddai'n rhychwantu Norwich am fod Cymru a Lloegr yn rhannu'r un awdurdodaeth.

Ar y llaw arall, pe bai'r cerddwr yn cael damwain o dan amgylchiadau tebyg wrth gerdded ar Ben Nevis, a'i fod yn dymuno hawlio o dan un o Ddeddfau Senedd yr Alban, gallai fod yn ofynnol iddo wneud hynny mewn llys yn yr Alban. Mae hyn oherwydd bod yr Alban yn awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân a chyfraith yr Alban, o dan un o Ddeddfau Senedd yr Alban, fyddai'n gymwys ac mai corff cyhoeddus o'r Alban fyddai'r diffynnydd. Felly, mae'n bosibl nad llys yn Lloegr fyddai'r fforwm priodol i hawlio[5].

Gan nad oes y fath beth â 'chyfraith Cymru' ar hyn o bryd (na 'chyfraith Lloegr' chwaith, wrth gwrs), dim ond cyfraith Cymru a Lloegr, ni ellir dweud bod Cymru na Lloegr yn awdurdodaethau ar wahân yn eu hawl eu hunain. Felly, gallai llys yn Lloegr wrando ar achos a ddygwyd o dan ddeddfwriaeth y Cynulliad a gallai llys yng Nghymru wrando ar achos a ddygwyd o dan Ddeddf Seneddol sy'n gymwys yn Lloegr yn unig.

2. Ydy corff neilltuol o gyfreithiau yn nodwedd hanfodol ar gyfer awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ac, os felly, i ba raddau?

2.1 Pryd y gellir dweud bod corff o gyfreithiau yn ddigon 'neilltuol' yn hyn o beth?

2.2 A oes ots ai'r gyfraith statud ynteu'r gyfraith gyffredin yw'r gyfraith dan sylw?

2.3 A oes ots beth yw natur pwnc y cyfreithiau, er enghraifft troseddol, sifil, teulu?

*c. System gyfreithiol ar wahân*

**Mae deddfwrfa a llywodraeth Cymru wedi'u datganoli eisoes.**

Mae system lysoedd, barnwriaeth a phroffesiwn cyfreithiol unedig ar gyfer Cymru a Lloegr. Nid yw'r cyfrifoldeb dros y llysoedd, y farnwriaeth na'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau gweinyddu cyfiawnder wedi'u datganoli i Gymru ac mae'n dal yn nwylo'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

[5] Gweler yr adran 'Gorfodi cyfraith un awdurdodaeth yn llysoedd awdurdodaeth arall', tudalennau 9-10

Mewn mannau lle ceir awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân, mae profiad yn dangos y gellir cael system lysoedd ar wahân hefyd, a honno'n delio ag achosion o bob math hyd yn oed os oes rhai elfennau o'r gyfraith y mae'r llysoedd hynny'n delio â hi nad ydynt yn dod o fewn cymhwysedd llywodraeth a deddfwrfa yr awdurdodaeth honno.

Yng Nghanada, er enghraifft, yr awdurdodau taleithiol sy'n rhedeg y llysoedd troseddol, ond mae creu troseddau ac amddiffyniadau yn fater a gedwir gan y llywodraeth ffederal. Yn yr un modd, yn gyffredinol, mae diogelu defnyddwyr yn fater a gedwir gan Senedd y Deyrnas Unedig ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan, ond mae gwahanol systemau llysoedd Cymru a Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon, yn delio ag ef. Yn ogystal, yr un gyfraith gyflogaeth sy'n cael ei chymhwyso ledled y Deyrnas Unedig, er y gall rheolau gweithdrefnol gwahanol fod yn perthyn i'r systemau tribiwnlysoedd gwahanol yng Nghymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Yn y Deyrnas Unedig, mae gan bob un o'r tair awdurdodaeth eu llysoedd eu hunain, i fyny hyd at eu llysoedd apêl. Fodd bynnag, mae'r Goruchaf Lys, sef llys apêl terfynol y Deyrnas Unedig ar gyfer y rhan fwyaf o faterion[6], yn gweithredu ar draws y tair awdurdodaeth, gan benderfynu ar achosion yn unol â'r cyfreithiau sy'n gymwys yn yr awdurdodaeth honno. Gan mai'r Goruchaf Lys yw'r llys apêl terfynol, mae'n pennu cynseiliau y mae'n rhaid i lysoedd is yn yr awdurdodaeth honno eu dilyn. Er mai'r sefyllfa arferol yw bod llysoedd yn gweithredu mewn un awdurdodaeth yn unig, mae'r Goruchaf Lys yn dangos bod modd i lys fod yn drawsawdurdodaethol.

Felly gallai fod yn bosibl i system lysoedd unedig weithredu yng Nghymru a Lloegr hyd yn oed pe bai Cymru a Lloegr yn dod yn awdurdodaethau ar wahân. Yn yr un modd, gallai fod yn bosibl cadw'r system lysoedd unedig bresennol ar wahanol lefelau, er enghraifft cadw'r Uchel Lys, y Llys Apêl, a'r Goruchaf Lys fel y maent ar hyn o bryd; neu gadw'r Llys Apêl a'r Goruchaf Lys; neu ddim ond y Goruchaf Lys. Felly, yn y ddwy enghraifft olaf, byddai gan Gymru ei Huchel Lys neu sefydliad cyfatebol ei hunan, neu Uchel Lys a Llys Apêl.

3. Ydy gwahanu cyfrifoldebau ym maes gweinyddu cyfiawnder (h.y. gwahanu cyfrifoldebau Cymru oddi wrth rai Lloegr) yn nodwedd hanfodol ar gyfer awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ac, os felly, i ba raddau?

3.1 Ydy awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru yn gydnaws â system lysoedd unedig ar gyfer Cymru a Lloegr ac, os felly, i ba raddau?

3.2 Ydy awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru yn gydnaws â barnwriaeth unedig ar gyfer Cymru a Lloegr ac, os felly, i ba raddau?

3.3 Pe bai gan Gymru system lysoedd ar wahân, pa lysoedd y byddai hyn yn effeithio arnynt?

3.4 A fyddai angen Uchel Lys a/neu Lys Apêl ar wahân ar Gymru?

[6] Nid yw achosion troseddol yn yr Alban yn mynd i'r Goruchaf Lys os bai eu bod yn codi mater ynglŷn â hawliau dynol neu fater datganoledig arall.

3.5 A ddylai Cymru barhau i rannu rhai llysoedd â Lloegr ac, os felly, pa rai?

3.6 Pe bai Cymru a Lloegr yn dal i rannu rhai llysoedd, a ellid bod angen gwneud newidiadau i drefniadaeth y llysoedd hynny ac, os felly, pa newidiadau?

4. Pe bai'r cyfrifoldeb dros weinyddu cyfiawnder yn cael ei ddatganoli, a fyddai angen i'r ddeddfwrfa ddatganoledig gael cymhwysedd deddfwriaethol cyffredinol dros y gyfraith droseddol fel maes datganoledig ar wahân ac, os felly, i ba raddau?

4.1 A oes rhyw feysydd cymhwysedd deddfwriaethol eraill y dylid eu datganoli mewn achos felly?

5. Sut, yn eich barn chi, allai system lysoedd unedig ar gyfer Cymru a Lloegr weithio:

5.1 pe bai gan Gymru awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân a bod cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad:

a. yn aros fel y mae ar hyn o bryd, gyda'r gallu i ehangu gam wrth gam, neu
b. yn cael ei ehangu i gynnwys pob mater heblaw'r rhai a gedwir yn benodol gan Senedd y Deyrnas Unedig?

5.2 pe bai awdurdodaeth gyfreithiol unedig gyfredol Cymru a Lloegr yn parhau a bod cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad:

a. yn dal fel y mae ar hyn o bryd, gyda'r gallu i ehangu gam wrth gam, neu
b. yn cael ei ehangu i gynnwys pob mater heblaw'r rhai a gedwir yn benodol gan Senedd y Deyrnas Unedig?

Ymddengys nad oes un dull na phroses unigol ar gyfer creu neu ddatblygu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân.

Fodd bynnag ni all y sefydliadau datganoledig yng Nghymru fynd ati, ar eu pen eu hunain, i greu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ac ni allai'r fath awdurdodaeth fodoli hyd nes y bydd sefydliadau fel y Senedd y Deyrnas Unedig a'r llysoedd yn ei chydnabod. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, drwy Ddeddf Senedd y Deyrnas Unedig sy'n cydnabod Cymru fel awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yn ei darpariaethau rhychwant, yn yr un ffordd ag y mae'n gwneud eisoes ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae dadl mai'r cyfan y byddai angen ei wneud er mwyn cael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yng Nghymru fyddai cydnabod Cymru, at ddibenion deddfwriaethol, fel uned neilltuol ac ar wahân yn y Deyrnas Unedig. Mewn achos felly, byddai Senedd y Deyrnas Unedig, pe bai'n bwriadu gwneud cyfraith ar gyfer Cymru, yn darparu bod y gyfraith honno yn rhychwantu Cymru (yn union fel y mae'n gwneud eisoes ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon). Efallai hefyd y byddai angen addasu pŵer y Cynulliad i ddeddfu trwy gyfrwng Deddfau'r Cynulliad (gweler cwestiwn 19 isod) fel mai dim ond rhychwantu Cymru y byddai ei ddeddfwriaeth.

6. Pan gyfeirir at ‘awdurdodaeth gyfreithiol’ yn yr ystyr bod Cymru a Lloegr yn awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i, er enghraifft, yr Alban, beth mae hyn yn ei olygu ar ei symlaf?

6.1 Yn y cyd-destun hwn, ydy awdurdodaeth gyfreithiol yn golygu dim ond y diriogaeth y mae gan y ddeddfwrfa (neu’r weithrediaeth) bŵer i ddeddfu drosti?

7. A oes gan awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân unrhyw nodweddion *hanfodol* eraill?

## Ydy awdurdodaeth gyfreithiol gyfredol Cymru a Lloegr yn gynaliadwy yn y setliad datganoli presennol?

Mae hanes yn awgrymu bod yr amodau ar gyfer cydnabod awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yn dibynnu ar amgylchiadau penodol y diriogaeth dan sylw. Weithiau, mae'r amodau'n rhai ymarferol a, dro arall, mae amodau gwleidyddol neu amodau eraill.

Gallai amodau ymarferol gynnwys, er enghraifft, achos lle bo'r rhanbarth wedi sicrhau rhywfaint o ymreolaeth a bod ei gyfreithiau a/neu ei sefydliadau cyfreithiol yn ymwahanu'n raddol oddi wrth rai'r awdurdodaeth wreiddiol.

Os bydd yr ymwahanu hwn yn dod yn ddigon arwyddocaol, gall fod yn anymarferol i gyfreithwyr a barnwyr a hyfforddwyd yng nghyfraith yr awdurdodaeth wreiddiol yn unig ddelio â chyfraith y rhanbarth ymreolaethol neu led-ymreolaethol heb ragor o hyfforddiant. Mae Canada a chyn-drefedigaethau eraill yn enghreifftiau o'r broses hon. Wrth i bwerau gweithredol a deddfwriaethol gael eu datganoli'n raddol i Ganada, datblygodd ei chyfraith yn wahanol nes cyrraedd y man lle daeth yn angenrheidiol gwahanu'r system gyfreithiol yn llwyr am resymau ymarferol.

Os nad yw'n angenrheidiol am resymau ymarferol, gallai amodau gwleidyddol neu amodau eraill olygu bod angen cydnabod awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân. Efallai mai Gogledd Iwerddon yw'r enghraifft orau: daeth ei system gyfreithiol, y bwriadwyd iddi gael awdurdodaeth dros ei thiriogaeth, i fodolaeth pan gafodd Gogledd Iwerddon ei chydnabod yn rhanbarth neilltuol o'r Deyrnas Unedig. Bwriad y trefniant oedd atal rhagor o aflonyddwch sifil yn Iwerddon. Ar y pryd, nid oedd gan Ogledd Iwerddon gorff neilltuol o gyfreithiau ac, yn wir, mae ei chyfraith yn dal yn debyg iawn i gyfraith Cymru a Lloegr.

8. Ydy awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr yn gynaliadwy yn y tymor hir o ystyried y posibilrwydd y bydd y cyfreithiau sy'n gymwys yng Nghymru yn ymwahanu fwyfwy wrth y rheini sy'n gymwys yn Lloegr a gweddill y Deyrnas Unedig?

9. Os ydych o'r farn bod yr awdurdodaeth gyfreithiol gyfredol yn gynaliadwy, a oes newidiadau tymor byr neu rai hirdymor y dylid eu gwneud i un neu fwy o'r elfennau isod?

- a. Trefniadau gweinyddu systemau'r llysoedd a/neu'r tribiwnlysoedd.
- b. Y farnwriaeth (gan gynnwys yr ynadaeth).
- c. Y proffesiynau cyfreithiol (gan gynnwys eu system reoleiddio).
- ch. Addysg a hyfforddiant yn y gyfraith.
- d. Hygyrchedd deddfwriaeth.

10. Os ydych o'r farn bod yr awdurdodaeth gyfreithiol gyfredol yn gynaliadwy, a oes rhyw newidiadau eraill tymor byr neu hirdymor y dylid eu gwneud?

## Gorfodi cyfraith un awdurdodaeth yn llysoedd awdurdodaeth arall

Pan fydd llys yn ystyried achos sy'n ymwneud â chyfraith 'estron', defnyddir cyrff o reolau i bennu cyfraith pa awdurdodaeth y dylid ei defnyddio i benderfynu ar yr achos. Cyfeirir at y rheolau hyn fel "gwrthdaro cyfreithiau" neu "gyfraith ryngwladol breifat" a chânt eu cymhwyso oni bai bod y ddeddfwriaeth yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer datrys y mater. Mae'r rheolau'n gymwys fel ag y maent rhwng gwledydd gwahanol, a rhwng awdurdodaethau cyfreithiol gwahanol yn yr un wlad, gan gynnwys tair awdurdodaeth gyfreithiol bresennol y Deyrnas Unedig. Os dyfernir mai cyfraith awdurdodaeth arall yw'r gyfraith sy'n gymwys, gall y llys wrthod gwrando ar yr achos os yw'n fwy cyfleus delio ag ef mewn awdurdodaeth arall. O dan rai amgylchiadau gall y llys benderfynu delio â'r achos, ond gan benderfynu arno drwy ddefnyddio cyfraith yr awdurdodaeth arall. Os penderfynir defnyddio cyfraith awdurdodaeth arall, mae'n rhaid i arbenigwr ar y gyfraith berthnasol roi tystiolaeth am ei chynnwys. Bydd y llys bob amser yn defnyddio'i gweithdrefnau ei hun a'i datrysiadau ei hun.

Er enghraifft pe bai anghydfod rhwng cwmni lleol a chwmni sydd â'i bencadlys mewn awdurdodaeth gyfreithiol arall, fel yr Alban, yn dod gerbron llys yng Nghymru, y peth cyntaf y byddai'n rhaid i'r llys ei wneud fyddai penderfynu a oedd ganddo awdurdodaeth i wrando ar yr achos o gwbl ac, os oedd ganddo awdurdodaeth, cyfraith pwy ddylid ei chymhwyso. Pe bai'n dyfarnu mai cyfraith yr Alban ddylid ei defnyddio byddai'n rhaid iddo benderfynu gwrthod gwrando ar yr achos, ar y sail mai yn yr Alban y dylid delio ag ef, neu ddelio ag ef gan gymhwyso cyfraith yr Alban[7].

### Gorfodi dyfarniadau ar draws awdurdodaethau presennol y DU

Er mwyn i ddyfarniad a wnaed mewn llys yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon gael ei orfodi yng Nghymru a Lloegr, mae'r llys yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon yn cyhoeddi tystysgrif yn nodi manylion y dyfarniad[8]. Yna, mae'n rhaid cofrestru'r dystysgrif cyn pen chwe mis yn yr Uchel Lys yn Llundain cyn y gellir cyhoeddi atafaeleb. Ar ôl i'r dyfarniad 'estron' gael ei gofrestru gall yr Uchel Lys gyhoeddi atafaeleb a gellir cychwyn gweithdrefnau gorfodi arferol, fel defnyddio beilïaid. Mae proses debyg ar gyfer cofrestru a gorfodi dyfarniadau llysoedd Cymru a Lloegr yn yr Alban, honno hefyd wedi'i seilio ar gofrestru tystysgrif gan y llys a wnaeth y dyfarniad. Gweithdrefn weinyddol ydyw yn y bôn ac nid oes angen hawlio o'r newydd yn yr awdurdodaeth lle ceisir y camau gorfodi.

Ar hyn o bryd gall y dyfarniadau a'r gorchmynion a wneir gan lysoedd sy'n eistedd yng Nghymru gael eu gorfodi yn Lloegr heb gymryd unrhyw gamau ffurfiol ychwanegol, hyd yn oed os cânt eu gwneud o dan ddeddfwriaeth ddatganoledig, gan eu bod yn rhannu awdurdodaeth a system gyfreithiol.

### Achosion troseddol ledled awdurdodaethau presennol y DU

Mae cyfran sylweddol o'r gyfraith droseddol yn wahanol rhwng awdurdodaeth Cymru a Lloegr, ar y naill law, ac awdurdodaeth yr Alban ar y llaw arall. Serch hynny mae

[7] Gweler adran 16 ac Atodlen 4 o Ddeddf Awdurdodaeth Sifil a Dyfarniadau 1982
[8] Adran 18 ac Atodlenni 6 a 7 o Ddeddf Awdurdodaeth Sifil a Dyfarniadau 1982

fframwaith statudol ar gyfer gorfodi gwarantau ac arestio pobl a ddrwgdybir o droseddau, ar draws yr awdurdodaethau. Gall gwarant a gyhoeddir yng Nghymru a Lloegr (neu Ogledd Iwerddon) gael ei gweithredu yn yr Alban, naill ai gan swyddog o heddlu'r Alban neu gan swyddog o'r awdurdodaeth a gyhoeddodd y warant. Yn yr un modd, gall gwarant o'r Alban gael ei gweithredu yng Nghymru a Lloegr gan swyddog o'r Alban neu swyddog lleol[9]. Yn ogystal mae gan swyddogion o Gymru a Lloegr bŵer i arestio pobl yn yr Alban a ddrwgdybir o gyflawni troseddau yng Nghymru a Lloegr, a hynny heb warant, (a *vice versa* yn achos swyddogion o'r Alban) os yw'n ymddangos iddynt hwy y byddai'r arestio yn gyfreithlon pe bai'r sawl a ddrwgdybir yn dal yn ei awdurdodaeth gartref[10].

Felly er nad yw'r gyfraith ar arestio pobl a ddrwgdybir o droseddau yn unffurf ar draws yr awdurdodaethau, gellir gweld yn hawdd ac mewn modd disgwyliadwy a yw'n gyfreithlon arestio rhywun dros y ffin mewn awdurdodaeth arall, trwy gyfeirio at statud.

*Wrth ateb y cwestiynau isod (11 i 15), byddai'n ddefnyddiol pe gallech ateb yn gyntaf gan gyfeirio at system lysoedd unedig ar gyfer Cymru a Lloegr ac yn ail gan gyfeirio at system lysoedd ar wahân ar gyfer Cymru.*

11. A fyddai cyfraith statud sy'n rhychwantu dim mwy nag awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru yn cael ei chydnabod yn gyfraith yn awdurdodaethau eraill y Deyrnas Unedig?

12. A fyddai'r awdurdodaethau eraill hynny yn cymryd sylw barnwrol o gyfraith statud felly?

13. A fyddai modd i gyfraith statud felly fod yn destun achos sifil yn yr awdurdodaethau eraill hynny – er enghraifft ar gyfer gorfodi neu trwy adolygiad barnwrol?

14. A fyddai modd i gyfraith statud felly fod yn destun achos troseddol yn yr awdurdodaethau eraill hynny – er enghraifft arestio, cyhuddo, erlyn, barnu'n euog a dedfrydu?

15. Beth yw goblygiadau posibl awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru o ran cyfraith ryngwladol breifat (neu "wrthdaro cyfreithiau") rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig?

---

[9] Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, a.136
[10] Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994, a.137

## Effaith awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar bwerau'r Cynulliad

Mae datganoli yng Nghymru yn gweithio'n wahanol i ddatganoli yn yr Alban. Mae gan Senedd yr Alban gymhwysedd deddfwriaethol cyffredinol, sy'n golygu y gall basio deddfau ar unrhyw bwnc ar yr amod nad yw'r pwnc hwnnw wedi'i gadw'n benodol gan Senedd y Deyrnas Unedig. Mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol diffiniedig, sy'n golygu mai dim ond mewn meysydd a ddatganolwyd iddo yn benodol y gall basio deddfau.

Wrth i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fynd ar ei hynt drwy'r Senedd, awgrymwyd mai'r model pwerau diffiniedig oedd y math mwyaf addas o ddatganoli ar gyfer Cymru gan fod y ffaith fod Cymru a Lloegr yn rhannu awdurdodaeth gyfreithiol yn gwneud setliad ehangach fel un yr Alban yn anymarferol. Weithiau dywedir y byddai awdurdodaeth ar wahân ar gyfer Cymru yn elfen angenrheidiol o unrhyw setliad datganoli newydd, ehangach, am y rheswm hwn.

Fodd bynnag mae eraill wedi dadlau y gellid bod wedi creu math o ddatganoli tebyg i system yr Alban a fyddai'n gydnaws â'r awdurdodaeth gyfreithiol y mae Cymru a Lloegr yn ei rhannu. Buasai'n rhaid i rai meysydd o'r gyfraith gael eu cadw gan Senedd y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau cysondeb ar draws yr awdurdodaeth, lle'r oedd angen hynny.

16. Pe bai Cymru'n symud tuag at fath o ddatganoli gyda 'phwerau wedi'u cadw', fel yn yr Alban, a fyddai awdurdodaeth ar wahân ar gyfer Cymru, yn eich barn chi, yn:

- a. hanfodol;
- b. dymunol;
- c. annymunol; neu
- ch. amherthnasol?

17. A fyddai awdurdodaeth ar y cyd rhwng Cymru a Lloegr yn gynaliadwy pe bai datganoli'n cael ei ehangu yng Nghymru?

18. Pe bai'n gynaliadwy, pa feysydd o'r gyfraith y byddai angen i Senedd y Deyrnas Unedig eu cadw?

O dan adran 108(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 caiff y Cynulliad, mewn rhai amgylchiadau, wneud darpariaethau mewn Deddfau Cynulliad sy'n gymwys yn Lloegr yn ogystal â Chymru. Gellir gwneud hynny, er enghraifft, os bydd yn angenrheidiol er mwyn gwneud darpariaethau Deddf Cynulliad yn effeithiol neu i sicrhau y gellir gorfodi Deddf Cynulliad.

**Enghraifft**

Pe bai'r Cynulliad yn pasio Deddf gyda'r nod o atal plant rhag chwarae triwant o ysgolion Cymru, gallai roi pŵer i swyddogion addysg yr awdurdodau lleol gymryd y plant oedd yn chwarae triwant a mynd â nhw yn ôl i'r ysgol. Fodd bynnag, byddai'r Ddeddf yn amlwg yn llai effeithiol pe bai plant ar y gororau yn gallu osgoi'r swyddogion trwy groesi'r ffin i Loegr. Felly, gallai'r Cynulliad ddefnyddio adran 108(5) i roi'r un pwerau i swyddogion addysg awdurdodau lleol yn Lloegr. Byddai hyn yn dderbyniol gan mai'r nod fyddai gwneud Deddf Cynulliad sy'n gymwys yng Nghymru yn effeithiol a sicrhau y gellid ei gorfodi.

Gellir gwneud hyn ar hyn o bryd gan fod Cymru a Lloegr yn un awdurdodaeth gyfreithiol a bod Deddfau'r Cynulliad yn rhan o gyfraith yr awdurdodaeth honno, ac felly gall cyfreithiau a wneir yng Nghymru gael eu cydnabod gan lysoedd yng Nghymru a Lloegr. Ar y llaw arall, dim ond yn yr Alban y gall deddfwriaeth Senedd yr Alban gael effaith gan ei bod yn awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân.

19. Er mwyn cael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru, a fyddai angen dileu pŵer y Cynulliad sy'n ei alluogi, mewn rhai amgylchiadau, i wneud cyfreithiau a fydd yn gymwys yn Lloegr?

19.1 A fyddai unrhyw anhawster cyfreithiol, cyfansoddiadol neu ymarferol i'r Cynulliad gadw pŵer o'r fath:

a. ar y sail y byddai unrhyw ddarpariaeth a wneir mewn perthynas â Lloegr yn rhychwantu Lloegr ac yn dod yn rhan o gyfraith Lloegr?
b. mewn ffordd arall ac, os felly, sut?

19.2 Os ydych yn credu y byddai anawsterau felly:

a. beth ydynt?
b. a fyddai'r anawsterau hynny'n wahanol i'r sefyllfa bresennol lle mae gan y Cynulliad bŵer eisoes i wneud darpariaeth sy'n gymwys yn Lloegr?

## Effaith awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar y proffesiynau cyfreithiol

Mae'r gofynion ar bobl sy'n gweithio yn y proffesiynau cyfreithiol ac sy'n dymuno gweithio mewn awdurdodaeth wahanol yn amrywio, gan ddibynnu i ba raddau y mae cyfraith yr awdurdodaeth lle maent yn dymuno gweithio yn wahanol i'r gyfraith yn eu hawdurdodaeth gartref.

Mae nifer o agweddau pwysig ar gyfraith yr Alban yn wahanol i gyfraith gweddill y Deyrnas Unedig ac mae gan yr Alban reolau cyfreithiol gweithdrefnol gwahanol iawn ar sawl cyfrif. Oherwydd hynny mae'n ofynnol i gyfreithwyr o'r Alban sy'n dymuno gweithio yng Nghymru a Lloegr neu yng Ngogledd Iwerddon gael hyfforddiant ychwanegol. Mae'r un peth yn wir am gyfreithwyr o Gymru a Lloegr, neu o Ogledd Iwerddon, os ydynt am weithio yn yr Alban.

Nid yw cyfraith ac arferion cyfreithiol Gogledd Iwerddon mor sylweddol wahanol i rai Cymru a Lloegr ac felly, fel rheol, nid oes raid i gyfreithwyr sy'n symud rhwng yr awdurdodaethau hynny ailhyfforddi o gwbl.

Felly, mae'r cwestiwn yn codi: a fyddai angen proffesiynau cyfreithiol ar wahân ar awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân.

20. Ydi'r syniad o awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru yn gydnaws â phroffesiynau cyfreithiol unedig ar gyfer Cymru a Lloegr ac, os ydyw, i ba raddau?

20.1 A fyddai awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru yn effeithio ar yr agweddau isod ar y proffesiynau cyfreithiol ac, os felly, beth fyddai'r effeithiau posibl?

a. addysg a hyfforddiant;
b. cymwysterau;
c. rheoleiddio.

## Effaith awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar y gyfraith gyffredin

Awdurdodaeth cyfraith gyffredin yw Cymru a Lloegr. Mewn awdurdodaethau cyfraith gyffredin, daw'r gyfraith o'r ddeddfwriaeth, a wneir gan ddeddfwrfeydd a llywodraethau, ac o benderfyniadau a wneir gan y llysoedd. Mae'n rhaid i farnwyr mewn llysoedd is ddilyn penderfyniadau a wneir yn y llysoedd uwch wrth ddelio ag achosion lle mae'r ffeithiau'n debyg. Hynny yw, mae'r llysoedd uwch yn pennu cynseiliau cyfreithiol i'r llysoedd is eu dilyn.

Nid yw penderfyniadau llysoedd mewn awdurdodaethau cyfreithiol eraill (gan gynnwys yr Alban a Gogledd Iwerddon) yn rhwymol yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, gellir talu sylw iddynt a gallant fod yn berswadiol yn yr ystyr y gall llys mewn un awdurdodaeth fabwysiadu rhesymeg gyfreithiol llys mewn awdurdodaeth arall.

Bydd y gyfraith gyffredin yn dal i ddatblygu fel y mae wedi gwneud erioed.

Fodd bynnag mae pwerau datganoledig yn rhai statudol eu natur a gall Deddf Cynulliad ddisodli rheol o dan y gyfraith gyffredin â rheol statudol, cyhyd â bod hynny oddi mewn i gymhwysedd y Cynulliad.

Mae dadl na fyddai awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru (pe byddai hynny'n gysylltiedig â system lysoedd ar wahân neu beidio) yn effeithio'n uniongyrchol ar ddatblygiad y gyfraith gyffredin. Byddai Cymru'n dal yn awdurdodaeth cyfraith gyffredin a Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig fyddai'r llys apêl terfynol. Yn hyn o beth byddai'n debyg i rai o wledydd y Gymanwlad, fel Jamaica, sy'n dal i droi at Bwyllgor Barnwrol y Cyfrin Gyngor at y diben hwn.

21. A fyddai creu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru'n effeithio ar y gyfraith gyffredin sydd wedi datblygu fel rhan o awdurdodaeth gyfreithiol unedig Cymru a Lloegr?

22. A fyddai'ch ateb yn wahanol pe bai system lysoedd ar wahân yng Nghymru?

23. A fyddai'ch ateb yn wahanol pe bai gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol cyffredinol dros y canlynol i gyd, neu'r rhan fwyaf ohonynt:

   a. y gyfraith trosedd;
   b. y gyfraith sifil; neu
   c. unrhyw faes arall o'r gyfraith nad ydych o'r farn ei fod yn perthyn i (a) na (b)?

24. A ellid cael eithriadau datganedig yn eithrio'r gyfraith gyffredin (a luniwyd gan farnwyr) o gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad?

24.1 Pam y byddai hynny'n ddymunol, a sut y byddai'n gweithio'n ymarferol?

24.2 Pa mor anodd fyddai hynny?

## Gweithredu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru, ac effeithiau eraill posibl awdurdodaeth o'r fath

25. A oes goblygiadau ehangach – economaidd (gan gynnwys adnoddau), cyfreithiol, gwleidyddol, ieithyddol neu gymdeithasol – i gael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru?

26. Gan y gall y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru ddeillio o nifer o wahanol ffynonellau, pa systemau fyddai'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod cyfraith awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru ar gael yn hwylus i bobl Cymru ac eraill sydd â diddordeb yn y mater.

27. Yng nghyd-destun penodol Cymru, a oes rhyw nodweddion ychwanegol a fyddai'n briodol er mwyn i awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân weithio'n effeithiol?

28. A fyddai'ch atebion i unrhyw rai o'r cwestiynau yn y papur ymgynghori hwn yn wahanol pe bai cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn cael ei drin yn yr un ffordd â chymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban – hynny yw pe bai gan y Cynulliad gymhwysedd dros bob mater ac eithrio'r rhai a gedwir yn benodol gan Senedd y Deyrnas Unedig?

## Rhestr Lawn o Gwestiynau'r Ymgynghoriad

1. A ydych yn cytuno y byddai tiriogaeth ddaearyddol ddiffiniedig yn nodwedd hanfodol ar gyfer awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru?

1.1 Yn eich barn chi, at ddibenion awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru, pa diriogaeth ddylid ei dewis – "Cymru" yn ôl diffiniad Deddf Ddehongli 1978 neu yn ôl diffiniad Deddf Llywodraeth Cymru 2006?

2. Ydy corff neilltuol o gyfreithiau yn nodwedd hanfodol ar gyfer awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ac, os felly, i ba raddau?

2.1 Pryd y gellir dweud bod corff o gyfreithiau yn ddigon 'neilltuol' yn hyn o beth?

2.2 A oes ots ai'r gyfraith statud ynteu'r gyfraith gyffredin yw'r gyfraith dan sylw?

2.3 A oes ots beth yw natur pwnc y cyfreithiau, er enghraifft troseddol, sifil, teulu?

3. Ydy gwahanu cyfrifoldebau ym maes gweinyddu cyfiawnder (h.y. gwahanu cyfrifoldebau Cymru oddi wrth rai Lloegr) yn nodwedd hanfodol ar gyfer awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ac, os felly, i ba raddau?

3.1 Ydy awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru yn gydnaws â system lysoedd unedig ar gyfer Cymru a Lloegr ac, os felly, i ba raddau?

3.2 Ydy awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru yn gydnaws â barnwriaeth unedig ar gyfer Cymru a Lloegr ac, os felly, i ba raddau?

3.3 Pe bai gan Gymru system lysoedd ar wahân, pa lysoedd y byddai hyn yn effeithio arnynt?

3.4 A fyddai angen Uchel Lys a/neu Lys Apêl ar wahân ar Gymru?

3.5 A ddylai Cymru barhau i rannu rhai llysoedd â Lloegr ac, os felly, pa rai?

3.6 Pe bai Cymru a Lloegr yn dal i rannu rhai llysoedd, a ellid bod angen gwneud newidiadau i drefniadaeth y llysoedd hynny ac, os felly, pa newidiadau?

4. Pe bai'r cyfrifoldeb dros weinyddu cyfiawnder yn cael ei ddatganoli, a fyddai angen i'r ddeddfwrfa ddatganoledig gael cymhwysedd deddfwriaethol cyffredinol dros y gyfraith droseddol fel maes datganoledig ar wahân ac, os felly, i ba raddau?

4.1 A oes rhyw feysydd cymhwysedd deddfwriaethol eraill y dylid eu datganoli mewn achos felly?

5. Sut, yn eich barn chi, allai system lysoedd unedig ar gyfer Cymru a Lloegr weithio:

5.1 pe bai gan Gymru awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân a bod cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad:

a. yn aros fel y mae ar hyn o bryd, gyda'r gallu i ehangu gam wrth gam, neu
b. yn cael ei ehangu i gynnwys pob mater heblaw'r rhai a gedwir yn benodol gan Senedd y Deyrnas Unedig?

5.2 Pe bai awdurdodaeth gyfreithiol unedig gyfredol Cymru a Lloegr yn parhau a bod cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad:

a. yn dal fel y mae ar hyn o bryd, gyda'r gallu i ehangu gam wrth gam, neu
b. yn cael ei ehangu i gynnwys pob mater heblaw'r rhai a gedwir yn benodol gan Senedd y Deyrnas Unedig?

6. Pan gyfeirir at 'awdurdodaeth gyfreithiol' yn yr ystyr bod Cymru a Lloegr yn awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i, er enghraifft, yr Alban, beth mae hyn yn ei olygu ar ei symlaf?

6.1 Yn y cyd-destun hwn, ydy awdurdodaeth gyfreithiol yn golygu dim ond y diriogaeth y mae gan y ddeddfwrfa (neu'r weithrediaeth) bŵer i ddeddfu drosti?

7. A oes gan awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân unrhyw nodweddion *hanfodol* eraill?

8. Ydy awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr yn gynaliadwy yn y tymor hir o ystyried y posibilrwydd y bydd y cyfreithiau sy'n gymwys yng Nghymru yn ymwahanu fwyfwy wrth y rheini sy'n gymwys yn Lloegr a gweddill y Deyrnas Unedig?

9. Os ydych o'r farn bod yr awdurdodaeth gyfreithiol gyfredol yn gynaliadwy, a oes newidiadau tymor byr neu rai hirdymor y dylid eu gwneud i un neu fwy o'r elfennau isod?

a. Trefniadau gweinyddu systemau'r llysoedd a/neu'r tribiwnlysoedd.
b. Y farnwriaeth (gan gynnwys yr ynadaeth).
c. Y proffesiynau cyfreithiol (gan gynnwys eu system reoleiddio).
ch. Addysg a hyfforddiant yn y gyfraith.
d. Hygyrchedd deddfwriaeth.

10. Os ydych o'r farn bod yr awdurdodaeth gyfreithiol gyfredol yn gynaliadwy, a oes rhyw newidiadau eraill tymor byr neu hirdymor y dylid eu gwneud?

11. A fyddai cyfraith statud sy'n rhychwantu dim mwy nag awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru yn cael ei chydnabod yn gyfraith yn awdurdodaethau eraill y Deyrnas Unedig?

12. A fyddai'r awdurdodaethau eraill hynny yn cymryd sylw barnwrol o gyfraith statud felly?

13. A fyddai modd i gyfraith statud felly fod yn destun achos sifil yn yr awdurdodaethau eraill hynny – er enghraifft ar gyfer gorfodi neu trwy adolygiad barnwrol?

14. A fyddai modd i gyfraith statud felly fod yn destun achos troseddol yn yr awdurdodaethau eraill hynny – er enghraifft arestio, cyhuddo, erlyn, barnu'n euog a dedfrydu?

15. Beth yw goblygiadau posibl awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru o ran cyfraith ryngwladol breifat (neu "wrthdaro cyfreithiau") rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig?

16. Pe bai Cymru'n symud tuag at fath o ddatganoli gyda 'phwerau wedi'u cadw', fel yn yr Alban, a fyddai awdurdodaeth ar wahân ar gyfer Cymru, yn eich barn chi, yn:

a. hanfodol;

b. dymunol;

c. annymunol; neu

ch. amherthnasol?

17. A fyddai awdurdodaeth ar y cyd rhwng Cymru a Lloegr yn gynaliadwy pe bai datganoli'n cael ei ehangu yng Nghymru?

18. Pe bai'n gynaliadwy, pa feysydd o'r gyfraith y byddai angen i Senedd y Deyrnas Unedig eu cadw?

19. Er mwyn cael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru, a fyddai angen dileu pŵer y Cynulliad sy'n ei alluogi, mewn rhai amgylchiadau, i wneud cyfreithiau a fydd yn gymwys yn Lloegr?

19.1 A fyddai unrhyw anhawster cyfreithiol, cyfansoddiadol neu ymarferol i'r Cynulliad gadw pŵer o'r fath:

a. ar y sail y byddai unrhyw ddarpariaeth a wneir mewn perthynas â Lloegr yn rhychwantu Lloegr ac yn dod yn rhan o gyfraith Lloegr?

b. mewn ffordd arall ac, os felly, sut?

19.2 Os ydych yn credu y byddai anawsterau felly:

a. beth ydynt?

b. a fyddai'r anawsterau hynny'n wahanol i'r sefyllfa bresennol lle mae gan y Cynulliad bŵer eisoes i wneud darpariaeth sy'n gymwys yn Lloegr?

20. Ydi'r syniad o awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru yn gydnaws â phroffesiynau cyfreithiol unedig ar gyfer Cymru a Lloegr ac, os ydyw, i ba raddau?

20.1 A fyddai awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru yn effeithio ar yr agweddau isod ar y proffesiynau cyfreithiol ac, os felly, beth fyddai'r effeithiau posibl?

a. addysg a hyfforddiant;

b. cymwysterau;

c. rheoleiddio

21. A fyddai creu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru'n effeithio ar y gyfraith gyffredin sydd wedi datblygu fel rhan o awdurdodaeth gyfreithiol unedig Cymru a Lloegr?

22. A fyddai'ch ateb yn wahanol pe bai system lysoedd ar wahân yng Nghymru?

23. A fyddai'ch ateb yn wahanol pe bai gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol cyffredinol dros y canlynol i gyd, neu'r rhan fwyaf ohonynt:

a. y gyfraith trosedd;
b. y gyfraith sifil; neu
c. unrhyw faes arall o'r gyfraith nad ydych o'r farn ei fod yn perthyn i (a) na (b)?

24. A ellid cael eithriadau datganedig yn eithrio'r gyfraith gyffredin (a luniwyd gan farnwyr) o gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad?

24.1 Pam y byddai hynny'n ddymunol, a sut y byddai'n gweithio'n ymarferol?

24.2 Pa mor anodd fyddai hynny?

25. A oes goblygiadau ehangach – economaidd (gan gynnwys adnoddau), cyfreithiol, gwleidyddol, ieithyddol neu gymdeithasol – i gael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru?

26. Gan y gall y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru ddeillio o nifer o wahanol ffynonellau, pa systemau fyddai'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod cyfraith awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân ar gyfer Cymru ar gael yn hwylus i bobl Cymru ac eraill sydd â diddordeb yn y mater.

27. Yng nghyd-destun penodol Cymru, a oes rhyw nodweddion ychwanegol a fyddai'n briodol er mwyn i awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân weithio'n effeithiol?

28. A fyddai'ch atebion i unrhyw rai o'r cwestiynau yn y papur ymgynghori hwn yn wahanol pe bai cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn cael ei drin yn yr un ffordd â chymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban – hynny yw pe bai gan y Cynulliad gymhwysedd dros bob mater ac eithrio'r rhai a gedwir yn benodol gan Senedd y Deyrnas Unedig?

29. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw chi:

Sefydliad (os yw’n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Mae’n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai’n well gennych i’ch ymateb gael ei gadw’n gyfrinachol, ticiwch y blwch: